Sylfaen

Sylfaen Lefel Mynediad/Lefel 1

Cymhwyster Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith

# Teithio a Thwristiaeth

I'w addysgu o fis Medi 2027

## Canllaw Cyflym



Noder bod yr holl wybodaeth yn ein Canllawiau Cyflym yn amodol ar gymeradwyaeth Cymwysterau Cymru.

Yn Arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

# Grymuso dysgwyr, cefnogi athrawon

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae gennym fwy na 75 mlynedd o brofiad yn cyflwyno cymwysterau o safon y gellir ymddiried ynddynt ac yn cefnogi dysgwyr, addysgwyr, a chyflogwyr ledled Cymru.

Darparwn amrywiaeth eang o gymwysterau dwyieithog sy'n hygyrch, yn ennyn diddordeb, ac wedi'u bwriadu i fodloni anghenion dysgwyr heddiw.

I ategu ein cymwysterau mae gennym dimau pynciol arbenigol, adnoddau o safon uchel, a chefnogaeth arbenigol, ymatebol. Y cydweithio agos ag ysgolion, colegau, consortia rhanbarthol, arbenigwyr sector a Chymwysterau Cymru sy'n llywio ac yn llunio ein gwaith.

Ni yw'r unig gorff dyfarnu sy'n cynnig cymwysterau ym mhob cyfres o'r hyn sydd ar gael fel Cymwysterau Cenedlaethol 14-16. Rydym yn falch iawn felly o fod â rôl allweddol yn cefnogi dyhead Llywodraeth Cymru i wneud addysg yng Nghymru yn rhywbeth y gall y genedl fod yn falch ohono. Mae'n ymrwymiad gennym i helpu pob dysgwr i gyflawni ei botensial ac i symud ymlaen yn hyderus.



# Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith: Sylfaen gref i lwyddo yn y dyfodol

Lluniwyd ein Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith i ysbrydoli ac i gefnogi dysgwyr, gan gynnig rhaglen dros ddwy flynedd sy'n hygyrch, sy'n ennyn diddordeb, ac wedi'i gwreiddio mewn dysgu yn y byd go iawn.

Gyda phwyslais cryf ar weithgareddau a phrofiad ymarferol, mae'r cymwysterau hyn yn helpu dysgwyr i feithrin hyder, datblygu sgiliau hanfodol, a mwynhau llwyddiant ystyrlon.

Mae'r strwythur unedol sydd iddynt yn un o nodweddion allweddol ein Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith. Dyma sy'n caniatáu i'r dysgwyr gwblhau rhai asesiadau ym Mlwyddyn 10 ac asesiadau eraill ym Mlwyddyn 11. Gyda'r hyblygrwydd hwn, mae'n bosibl gwneud cynnydd gan bwyll, mae llai o bwysau asesu, ac mae'r dysgwyr yn cael y cyfle i ddangos yr hyn maen nhw'n ei gyflawni drwy gydol y cwrs.

Oherwydd eu natur gydadferol, mae ein Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith yn cydnabod y cryfderau sydd gan ddysgwyr ar draws y gwahanol unedau. Nid oes angen yr un perfformiad ym mhob maes, ac mae hynny felly'n golygu bod modd cyflawni'n uchel mewn un uned a hynny wedyn yn gwneud iawn am berfformiad is mewn uned arall. Mae'r profiad asesu felly'n un mwy cynhwysol a chefnogol ar y sail hon.

Gyda chynnwys sy'n berthnasol, yn ysgogol ac wedi'i deilwra i anghenion dysgwyr, mae ein Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith yn gweithredu fel sylfaen gadarn ar gyfer astudio ôl-16. P'un a yw dysgwyr yn parhau i astudio'r pwnc ai peidio, byddan nhw'n ennill gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau gwerthfawr, gan deimlo eu bod wedi cyflawni mewn ffordd sy'n eu paratoi ar gyfer bywyd, dysgu a gwaith.

**Gweler ein hamrywiaeth lawn o Gymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith:** www.cbac.co.uk/ton3

# Ynglŷn â'r Cymhwyster Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith mewn Teithio a Thwristiaeth

Mae'r diwydiant teithio a thwristiaeth yn fywiog, wedi'i gysylltu'n fyd-eang ac yn cynnig amrywiaeth eang o rolau.

Mae'r cymhwyster hwn yn cyflwyno testunau allweddol fel sectorau'r diwydiant, cyrchfannau a'u nodweddion, a rhesymau dros deithio. Bydd dysgwyr hefyd yn datblygu sgiliau ymarferol, fel ymchwilio, cynllunio a chyfathrebu, drwy dasgau byd go iawn.

Mae'n cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru ac yn meithrin gwybodaeth ar gyfer symud ymlaen i astudiaethau galwedigaethol neu gyflogaeth.

## Ar gyfer pwy mae'r cymhwyster hwn?

Mae'r cymhwyster hwn ar gyfer dysgwyr rhwng 14 ac 16 oed sy'n gweithio ar Lefel Mynediad a Lefel 1 sydd eisiau archwilio Teithio a Thwristiaeth drwy dasgau ymarferol.

Mae'n ddelfrydol ar gyfer y rheiny sydd â diddordeb mewn deall y diwydiant, cyrchfannau twristiaeth a pham mae pobl yn teithio tra hefyd yn datblygu sgiliau ymarferol, trosglwyddadwy.

Mae'r cwrs wedi'i anelu at y rheiny y mae'n well ganddynt ddysgu ymarferol, yn y byd go iawn ac mae'n gweithredu fel sylfaen gadarn ar gyfer symud ymlaen i astudiaethau galwedigaethol pellach neu rolau lefel mynediad yn y diwydiant.

# Beth mae'r cymhwyster yn ei gynnwys?

| Uned | Ffocws |
|---|---|
| **1. Archwilio teithio a thwristiaeth yng Nghymru**<br><br>(48 ODA) | **Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn archwilio:**<br><br>• beth yw ystyr teithio a thwristiaeth<br>• y sectorau allweddol yn y diwydiant teithio a thwristiaeth<br>• cyrchfannau, eu hatyniadau a rhesymau dros deithio<br>• effeithiau teithio a thwristiaeth a syniadau ar gyfer y dyfodol yng Nghymru<br>• y gwahanol swyddi yn y diwydiant teithio a thwristiaeth |
| **2. Dylunio atyniad i dwristiaid ar gyfer Cymru**<br><br>(72 ODA) | **Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn:**<br><br>• gwybod a deall atyniadau i ymwelwyr yng Nghymru a sut maent yn bodloni anghenion a disgwyliadau ymwelwyr<br>• gallu defnyddio ymchwil i adnabod atyniadau, mathau o ymwelwyr a'u hanghenion<br>• gallu creu syniad ar gyfer atyniad i dwristiaid yng Nghymru<br>• gallu cynllunio atyniad i dwristiaid yng Nghymru<br>• gallu cyfathrebu syniadau ar gyfer atyniad i dwristiaid yng Nghymru<br>• gallu adolygu'r atyniad i dwristiaid |

# Crynodeb o'r Asesu

Mae'r asesiad yn seiliedig ar dasgau hyblyg yn yr ystafell ddosbarth yn hytrach nag arholiadau ffurfiol, gan alluogi dysgwyr i arddangos eu sgiliau drwy weithgareddau ystafell ddosbarth dynamig wedi'u cynllunio i roi bywyd i'r hyn maen nhw'n ei ddysgu.

Mae'n seiliedig ar feini prawf clir a mesuradwy, wedi'u gosod ar draws pedair lefel i gydnabod a dathlu cynnydd ym mhob cam.

Mae pob uned yn rhoi syniadau am dasgau ysbrydoledig ac yn awgrymu mathau o dystiolaeth, gan ddarparu popeth sydd ei angen ar athrawon i helpu dysgwyr i ddangos y sgiliau allweddol, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a ddiffinnir yn y deilliannau dysgu.

Gyda'r rhyddid i gynllunio gweithgareddau personol llawn dychymyg, gall athrawon deilwra'r asesiad i gryfderau, dyheadau a diddordebau eu dysgwyr. Mae'r holl dystiolaeth yn cael ei dwyn at ei gilydd mewn portffolio ystyrlon ac ymarferol sy'n amlygu cyflawniad gwirioneddol.

“Drwy ddysgu ymarferol ac asesu hyblyg, mae ein Cymwysterau Sylfaen Cysylltiedig â Gwaith yn ysbrydoli dysgwyr i ddarganfod eu potensial, i lwyddo ac i baratoi ar gyfer cyfleoedd i astudio ymhellach a chamu i'r byd gwaith.

Mae ein timau pwnc arbenigol yn barod i'ch cynorthwyo, gan gynnig adnoddau wedi'u teilwra a datblygiad proffesiynol i sicrhau eich chi'n hyderus wrth gyflwyno'r cymwysterau newydd hyn.”



**Sarah Harris**

Cyfarwyddwr Cynorthwyol
(Cymwysterau Galwedigaethol)

# Oes angen mwy o gefnogaeth arnoch chi?

Mae ein Cynrychiolydd Rhanbarthol Sophie Dobbs ar gael i'ch cefnogi fel canolfan i gyflwyno'r cymwysterau newydd cyffrous hyn:

**Rwy'n gweithio'n agos gydag ysgolion a cholegau ledled Cymru, yn eu helpu i ddeall y cymwysterau Ton 3 newydd sydd i ddod fel rhan o ddiwygio Cymwysterau Cenedlaethol 14–16 ym mis Medi 2027.**

**Rwyf yma i gefnogi canolfannau ar bob cam o'r daith, o'r sgyrsiau cynnar a chynllunio, hyd at gyflwyno'r cymwysterau.**

**Cyn dechrau yn CBAC, treuliais 17 mlynedd mewn addysg uwchradd. Mae cael y profiad hwnnw, a dealltwriaeth glir o'r heriau ymarferol y mae uwch arweinwyr yn eu hwynebu o ran staffio, amserlennu, adnoddau a chyllidebau, yn golygu fy mod mewn sefyllfa dda i gefnogi canolfannau yn strategol ac yn ymarferol drwy drawsnewidiad Ton 3**



Cysylltwch â Sophie:

**ton3@cbac.co.uk**

Ton 3

cbac wjec

## Mae'r don olaf o Gymwysterau Cenedlaethol 14-16 ar gyfer Gymru ar y ffordd, a bydd y cymwysterau'n barod i'w haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2027.

Rydyn ni'n adeiladu ar bopeth a ddysgwyd wrth gyd-greu ein cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru, gan gydweithio â dros 100 o ganolfannau a 60+ o gyflogwyr, i ddatblygu amrywiaeth gynhwysol, eang a chytbwys o gymwysterau sy'n galluogi ffyrdd gwahanol o ddysgu a datblygu sgiliau.

Dewch i ddarganfod amrywiaeth o gymwysterau newydd cynhwysol gyda CBAC, bwrdd arholi mwyaf sefydledig Cymru:

- **Project Personol**
- **Y Gyfres Sgiliau (Sgiliau Bywyd a Sgiliau Gwaith)**
- **Sylfaen (Cyffredinol ac yn Gysylltiedig â Gwaith)**
- **TAAU (Tystysgrif Alwedigaethol Addysg Uwchradd)**

## Dysgu mwy: www.cbac.co.uk/ton3

